

Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Dirybudd)

Hosbis Marie Curie

Dyddiad yr arolygiad: 6 a 7 Chwefror 2024

Dyddiad cyhoeddi: 9 Mai 2024



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom	5
2. Crynodeb o'r arolygiad	6
3. Yr hyn a nodwyd gennym	9
• Ansawdd Profiad y Claf	9
• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	13
• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	17
4. Y camau nesaf	19
Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	20
Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	22
Atodiad C - Cynllun gwella.....	23

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o Hosbis Marie Curie ar 6 a 7 Chwefror 2024. Adolygwyd wardiau canlynol yr ysbyty yn ystod yr arolygiad hwn:

- Ward - 16 o welyau yn darparu gwasanaethau lliniarol a rheoli symptomau

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Arolygydd Gofal Iechyd AGIC, dau adolygydd cymheiriaid clinigol ac un adolygydd profiad y claf. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod ansawdd profiad y claf yn dda iawn.

Mynegodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad foddhad â'r gofal a'r driniaeth roeddent yn eu cael. Dywedodd y cleifion wrthym fod y staff yn garedig ac yn ofalgar. Gwelsom enghreifftiau o ryngweithio da rhwng y staff a'r cleifion, gyda'r staff yn cefnogi'r cleifion mewn ffordd urddasol a pharchus.

Gwelsom aelodau o'r staff yn ymdrin â'r cleifion mewn ffordd ddigynnwrf a oedd yn rhoi tawelwch meddwl iddynt.

Roedd amgylchedd yr hosbis yn lân, yn daclus ac mewn cyflwr da. Roedd y dderbynfa yn olau ac yn groesawgar. Roedd y wardiau a'r ystafelloedd preifat yn fawr ac roedd gan y rhan fwyaf ohonynt olygfeydd da o'r gerddi a'r môr.

Roedd gan yr hosbis ddwy ystafell i berthnasau a oedd yn cynnwys cyfleusterau cegin. Roedd un ystafell lle gallai perthnasau aros dros nos.

Roedd siop goffi ar y llawr gwaelod a oedd yn rhoi mynediad i'r gerddi a oedd yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Roedd ardal gymunedol ar y llawr hwn hefyd lle roedd gweithgareddau grŵp yn cael eu cynnal. Dywedodd y staff wrthym fod partiön penblwydd a phriodasau'n cael eu cynnal yno hefyd.

Gwelsom fod cleifion yn rhoi adborth mewn amrywiaeth o ffyrdd. Fodd bynnag, nid oedd yr adborth yn cael ei arddangos yn yr hosbis.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod y cleifion yn ymwybodol o'r cyfleusterau sydd ar gael, fel yr ystafelloedd sba
- Cynnwys gwybodaeth Gymraeg ar y bwrdd gwybodaeth i gleifion
- Arddangos hysbysfwrdd 'Dywedoch Chi, Gwnaethom Ni' i gynnwys adborth y cleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Amgylchedd glân a chroesawgar
- Yr ymgysylltu rhwng y staff â'i gilydd, y cleifion, a pherthnasau
- Darpariaeth i berthnasau aros dros nos, gan gynnwys cyfleusterau cegin
- Gweithgareddau grŵp a hyrwyddo llesiant.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y trefniadau ar gyfer darparu gofal yn Hosbis Marie Curie yn ddiogel ac yn effeithiol.

Roedd dull amlddisgyblaethol o gynllunio a darparu gofal.

Roedd y staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal tosturiol, diogel ac effeithiol i'r cleifion.

Roedd cyfarpar addas ar gael ac yn cael ei ddefnyddio er mwyn helpu i atal y cleifion rhag datblygu briwiau pwyso ac i'w hatal rhag cwmpo.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol

- Cyflwyno system i ddangos pan fydd cyfarpar wedi cael ei lanhau, e.e. sticeri 'Rwy'n lân'
- Sicrhau bod y drws i'r swyddfa lle caiff cofnodion papur eu cadw ar glo bob amser
- Sicrhau bod stoc yn cael ei storio'n ddiogel yn y storfa.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Darparu gofal cyfannol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- Dull amlddisgyblaethol o asesu, cynllunio a darparu gofal
- Trefniadau cadw cofnodion priodol a chyfoes
- Rheoli meddyginiaeth yn gyffredinol.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd rheolaeth ac arweinyddiaeth dda yn yr hosbis ac roedd y staff, yn gyffredinol, yn canmol y cymorth roeddent yn ei gael gan y tîm rheoli.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn hapus yn eu gwaith a bod diwylliant agored a chefnogol yno.

Gwelsom fod cyfraddau cydymffurfio â hyfforddiant yn fwy na 90% ar gyfer pob pwnc.

Roedd proses recriwtio a sefydlu briodol ar waith.

Gwelsom fod ystod eang o bolisiau a gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith. Roedd pob un ohonynt wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar.

Clywsom fod cyfraddau cydymffurfiaeth o ran arfarniadau staff yn ymddangos yn isel am fod y sefydliad wrthi'n rhoi Adnodd Datblygu Gyrfa ar waith ym mhob rhan o'r elusen.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol

- Cynnwys enw a manylion cyswllt AGIC yn y Polisi Cwynion, y Datganiad o Ddiben a'r Canllaw i Gleifion
- Sicrhau bod arfarniadau staff yn cael eu cwblhau gan ddefnyddio'r fframwaith newydd
- Arddangos canlyniadau adborth cleifion mewn man amlwg.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Polisiâu a gweithdrefnau cynhwysfawr
- Goruchwyliaeth briodol gan y rheolwyr
- Proses recriwtio a sefydlu briodol
- Roedd y cyfraddau cydymffurfio â hyfforddiant yn dda ar gyfer pob pwnc.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddefnyddio holiaduron papur ac ar-lein i gasglu barn ac adborth gan gleifion a gofalwyr. Cwblhawyd cyfanswm o 5 holiadur. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Dim rheswm i gwyno o gwbl. Mae pawb yn garedig, ac mae popeth sydd ei angen arnoch ar gael”

“Hoffwn ganmol y staff i gyd am eu bod yn hollol anhygoel. Mae'r amgylchedd yn wych. Fy nymuniad oedd dod yma a threulio fy niwrnodau olaf yma. Yn ffodus, roeddwn wedi gwella'n gyflym”

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Roedd gwybodaeth a phamffledi yn ymwneud ag iechyd ar gael mewn amrywiol rannau o'r hosbis, ac roedd llawer ohonynt yn ddwyieithog. Gwelsom fod gwybodaeth yn cael ei harddangos ar hysbysfyrddau yn y dderbynfa ac yn yr ardaloedd clinigol.

Gwelsom enghreifftiau o ryngweithio da rhwng y staff a'r cleifion, gyda'r staff yn diwallu anghenion y cleifion mewn ffordd gynnil a phroffesiynol. Gwelsom aelodau o'r staff yn treulio amser gyda'r cleifion ac yn eu hannog a'u cefnogi i wneud pethau drostynt eu hunain, gan gynnal eu hannibyniaeth.

Urddas a pharch

Gwelsom aelodau o'r staff yn bod yn garedig ac yn dangos parch at y cleifion. Gwelsom aelodau o'r staff yn gwneud ymdrechion i ddiogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion wrth roi cymorth iddynt ag anghenion gofal personol. Cadarnhaodd y cleifion fod y staff yn garedig ac yn sensitif wrth roi gofal.

Dywedodd y cleifion wrthym fod y staff bob amser yn gwrtais a'u bod yn gwranddo, arnyn nhw ac ar eu ffrindiau ac aelodau o'u teulu, a bod y staff yn eu galw wrth yr enw yr oedd yn well ganddynt ei ddefnyddio.

Dywedodd pob un o'r cleifion wrthym fod y staff wedi siarad â nhw am eu cyflyrau meddygol ac wedi eu helpu i'w deall.

Roedd yr ystafelloedd gwely wedi'u dodrefnu a'u haddurno i safon dda. Roedd lolfa gymunedol ac ystafell fwyta ar wahân ar gael i'r cleifion a'u perthnasau eu defnyddio. Roedd gardd ag ardal eistedd awyr agored ar gael i'r cleifion ac ymwelwyr ei defnyddio hefyd, er mwyn iddynt fwynhau'r golygfeydd godidog o gefn gwlad.

Roedd y cleifion yn cael cynnig y cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau a sesiynau therapi grŵp a/neu unigol.

Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion

Roedd y Datganiad o Ddiben a'r Canllaw i Gleifion, a oedd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am y gwahanol fathau o wasanaethau a ddarperir, cyfleusterau a staff yr hosbis. Fodd bynnag, rhaid i'r rheolwr cofrestredig gynnwys manylion AGIC yn y Datganiad o Ddiben a'r Canllaw i Gleifion.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y Datganiad o Ddiben a'r Canllaw i Gleifion yn cyfeirio at AGIC yn unol â'r rheoliadau.

Gwelsom y staff yn gofyn am gydsyniad y cleifion cyn rhoi gofal iddynt a chyn rhannu gwybodaeth am eu gofal â gweithwyr proffesiynol eraill.

Cyfathrebu'n effeithiol

Drwy gydol yr arolygiad, gwelsom y staff yn cyfathrebu â'r cleifion mewn modd pwylllog ac urddasol. Cyfeiriwyd at y cleifion gan ddefnyddio'r enwau roeddent yn eu ffafrio Gwelwyd aelodau o'r staff yn cyfathrebu â'r cleifion mewn ffordd a oedd yn eu hannog ac yn eu cynnwys.

Dywedwyd wrthym fod rhai aelodau o'r staff, gan gynnwys un o'r Meddygon Ymgynghorol, yn siarad Cymraeg, a oedd yn golygu y gallai cleifion a pherthnasau a oedd yn siarad Cymraeg sgwrsio â nhw yn Gymraeg pe byddent yn dewis gwneud hynny.

Eglurodd yr uwch-reolwyr eu bod yn defnyddio Gwasanaeth Cyfieithu Cymru ar gyfer cleifion y mae angen cymorth arnynt ar gyfer amrywiaeth o ieithoedd eraill heblaw am y Gymraeg.

Roedd gan y gwasanaeth ddolen sain i gleifion ag anawsterau clywed hefyd.

Cynllunio a darparu gofal

Roedd ansawdd cofnodion y cleifion y gwnaethom edrych arnynt yn dda, a gwelsom fod y gwerthusiadau ysgrifenedig a gwblhawyd gan y staff gofal yn gynhwysfawr yn adlewyrchu unrhyw newidiadau i'r gofal a ddarparwyd.

Roedd y cleifion yn cael eu cynnwys wrth gynllunio a darparu eu gofal eu hunain, cyhyd ag yr oedd hynny'n bosibl. Lle nad oedd y cleifion yn gallu gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain, gwelsom dystiolaeth fod y staff yn ymgynghori â'r perthnasau ac yn eu hannog i wneud penderfyniadau am y gofal i'w ddarparu.

Roedd y tîm gofal iechyd amlddisgyblaethol yn rhoi gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn yn ôl yr anghenion a aseswyd ar gyfer yr unigolyn hwnnw. Roedd prosesau cadarn ar waith ar gyfer rhoi gwybod i weithwyr proffesiynol eraill fel y nyrs arbenigol ar hyfywedd meinwe, deietegydd, therapyddion galwedigaethol a ffisiotherapyddion am newidiadau o ran anghenion y cleifion.

Mae tîm yr hosbis yn gweithio gan ymgynghori â thîm gofal lliniarol y bwrdd iechyd a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill. O ganlyniad, gallai'r staff gael gafael ar gymorth a chynghor arbenigol pan fo angen, er enghraifft gan ddeietegwyr, nyrsys arbenigol ar gyfer hyfywedd meinwe a therapyddion lleferydd ac iaith.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Gwelsom fod y staff yn rhoi gofal mewn ffordd sy'n hyrwyddo ac yn diogelu hawliau'r cleifion.

Gwelsom fod y staff yn diogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion wrth ddarparu gofal. Er enghraifft, roedd drysau ystafelloedd gwely yn cael eu cau pan oedd gofal yn cael ei roi.

Nodwyd gennym fod asesiadau o dan y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) ac asesiadau Galluedd Meddyliol yn cael eu cynnal fel y bo angen.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Clywsom fod nifer y cwynion sy'n dod i law am y gwasanaeth yn isel iawn, a bod camau'n cael eu cymryd i ymdrin â nhw'n uniongyrchol lle bo modd. Roedd pob cwyn, ar lafar ac yn ysgrifenedig, yn cael ei chofnodi er mwyn canfod unrhyw themâu a thueddiadau.

Roedd gan yr hosbis bolisi cwynion a oedd wedi cael ei adolygu'n ddiweddar. Fodd bynnag, nid oedd y polisi yn cynnwys manylion AGIC.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig gynnwys manylion AGIC yn y polisi cwynion fel y nodir yn y Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol.

Esboniodd yr uwch-aelodau o staff sut mae'r gwasanaeth yn ceisio adborth. Clywsom fod doler i arolwg ar-lein yn cael ei hanfon at gleifion neu berthnasau sydd wedi cael gofal yn yr hosbis.

Clywsom fod y gwasanaeth yn gwahodd cleifion a gofalwyr i roi adborth gan ddefnyddio ffurflenni adborth safonol Marie Curie sydd ar gael i gleifion a pherthnasau. Gallai defnyddwyr y gwasanaeth a gofalwyr hefyd roi adborth gan

ddefnyddio fersiwn ar-lein o'r ffurflen sydd ar gael drwy god QR. Roedd iPads ar gael yn yr hosbis y gellid eu defnyddio i agor ffurflenni adborth hefyd. Cawsom sicrwydd y gallai adborth gael ei ddarparu'n ddiennw lle bo angen. Yna, roedd y canlyniadau'n cael eu cofnodi ar gronfa ddata ganolog a'u defnyddio i wella'r gwasanaeth.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Nodwyd gennym fod y trefniadau ar gyfer darparu gofal yn ddiogel ac yn effeithiol, ac mai gofalu am y cleifion, a rhoi cymorth i'w perthnasau/gofalwyr, oedd prif flaenoriaethau'r staff.

Roedd polisiâu a gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith er mwyn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Roedd y rhain yn seiliedig ar ganllawiau clinigol cyfredol. Roedd pob polisi wedi cael ei adolygu'n ddiweddar.

Roedd asesiadau risg ac archwiliadau cyffredinol yn cael eu cynnal er mwyn lleihau'r risg o niwed i'r cleifion, y staff a'r ymwelwyr. Gwelsom fod asesiadau o'r risg o gwmpo ac asesiadau o'r risg o friwiau pwysu yn cael eu cynnal yn rheolaidd ynghyd ag asesiadau risg clinigol eraill. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd adnodd ffurfiol ar gael i adnabod sepsis. Wrth drafod â'r staff, clywsom fod adnodd sepsis newydd wedi cael ei gyflwyno a bod y staff yn cael hyfforddiant ar yr adnodd hwn ar y pryd. Cawsom dystiolaeth i gefnogi hyn.

Gwelsom fod trefniadau boddhaol ar waith o ran diogelwch, dyletswyddau ar alwad a chynllunio ar gyfer argyfyngau.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd trefniadau cadw tŷ a chynnal a chadw da ar waith ar y cyfan. Roedd yr ardaloedd a'r ystafelloedd cymunedol a welsom yn lân ac yn daclus. Fodd bynnag, rydym yn argymhell y dylid cyflwyno system i ddangos pan fydd cyfarpar wedi cael ei lanhau, e.e. sticeri 'Rwy'n lân'.

Roedd polisi atal a rheoli heintiau ar waith, wedi'i ategu gan amserlenni glanhau cynhwysfawr. Gwelsom fod staff domestig yn bresennol ar y ward drwy gydol ein harolygiad.

Gwelsom fod cyflenwad da o gyfarpar diogelu personol ar gael er mwyn helpu i atal heintiau rhag lledaenu. Gwelsom y staff yn defnyddio cyfarpar diogelu personol yn briodol. Gwelsom dystiolaeth bod amrywiaeth o archwiliadau atal a rheoli heintiau ysgrifenedig yn cael eu cynnal.

Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael. Gwelsom hefyd fod gorsafoedd diheintio dwylo wedi'u gosod mewn manau strategol o amgylch yr hosbis. Gwelsom y staff yn dilyn gweithdrefnau hylendid dwylo priodol cyn ac ar ôl darparu gofal. Cawsom dystiolaeth o archwiliadau hylendid dwylo o'r tri mis diwethaf a oedd yn dangos cyfradd gydymffurfiaeth o 100% ymhlith y staff.

Maeth

Gwelsom fod prydau bwyd yn cael eu darparu'n rheolaidd drwy gydol y dydd.

Dyweddodd y cleifion ar yr ail lawr wrthym fod y prydau'n aml yn oer pan fyddant yn cyrraedd am fod bwyd yn cael ei weini i'r cleifion ar y llawr cyntaf yn gyntaf. Hysbyswyd y rheolwyr am hyn ac yn sgil hynny, cafodd y broses ei newid yn ystod ein harolygiad gyda hambyrddau'n cael eu defnyddio i weini bwyd i'r cleifion ar yr ail lawr a throliau'n cael eu defnyddio i weini'r cleifion ar y llawr cyntaf. Roedd hyn wedi datrys y broblem a dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn hapus bod y broses wedi newid.

Gwelsom y staff yn helpu cleifion i fwyta ac yfed yn ôl yr angen. Roedd gan yr hosbis bolisi ymweld agored, felly gall perthnasau hefyd fod wrth law i helpu adeg prydau bwyd.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd y trefniadau ar gyfer rheoli meddyginiaethau yn ddiogel, yn effeithiol ac yn drefnus ar y cyfan. Clywsom am ddiwyddiad diweddar yn ymwneud â gwall meddyginiaeth a oedd wedi arwain at ymarfer dysgu gwersi yn ogystal â rhagor o hyfforddiant a phrosesau manylach.

Roedd polisi rheoli meddyginiaeth cynhwysfawr ar waith. Roedd yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau'n rheolaidd.

Roedd meddyginiaeth yn cael ei storio'n briodol. Gwelsom aelodau o'r staff yn rhoi meddyginiaeth ac edrychwyd ar sampl o gofnodion rhoi meddyginiaeth. Nodwyd fod y broses yn cael ei rheoli'n dda ar y cyfan.

Disgrifiodd y staff y broses ar gyfer cael meddyginiaeth a reolir. Roedd trefniant ar waith â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro lle roedd meddyginiaeth a reolir yn cael ei harchebu o wasanaeth fferylliaeth y brif swyddfa. Roedd y gwasanaeth yn aros i drefniadau gael eu gwneud â'r fferyllfa yn Ysbyty Llandochau.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Roedd polisiau a gweithdrefnau diogelu ysgrifenedig ar waith. Gwelsom dystiolaeth bod cyfradd gydymffurfiaeth o 100% â hyfforddiant diogelu i amddiffyn plant ac oedolion.

Clywsom fod un mater diogelu gweithredol yn yr hosbis ar adeg yr arolygiad. Roedd hwn yn ymwneud â'r gweithdrefnau o ran Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid. Gwelsom fod dogfennau wedi cael eu cwblhau'n briodol ac yn amserol.

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Roedd amrywiaeth o gyfarpar meddygol yn yr hosbis, megis teclynnau codi, cymhorthion sefyll, dyfeisiau monitro pwysedd gwaed, dirlawnder ocsigen a lefelau siwgr yn y gwaed. Clywsom fod cyfarpar yn cael ei wirio, ei wasanaethu a'i galibradu yn rheolaidd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn rhoi gwybod i'r rheolwyr am gyfarpar diffygiol a bod y rheolwyr wedyn yn trefnu bod yr adran cyfarpar meddygol yn dod i gasglu'r cyfarpar.

Roedd diffibriliwr yn cael ei gadw mewn man amlwg ar y ward.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd tystiolaeth o drefniadau gweithio amlddisgyblaethol da iawn rhwng staff gofal yr hosbis a gweithwyr proffesiynol eraill, staff therapi, meddygon teulu a nyrsys arbenigol. Wrth drafod â'r staff ac edrych ar ddogfennaeth gofal y cleifion, gwelsom fod y cleifion yn cael gofal diogel a chlinigol effeithiol.

Roedd y tîm gofal iechyd amlddisgyblaethol yn rhoi gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn yn ôl yr anghenion a aseswyd ar gyfer yr unigolyn hwnnw. Roedd prosesau cadarn ar waith ar gyfer rhoi gwybod i weithwyr proffesiynol eraill fel y nyrs arbenigol ar hyfywedd meinwe, deietegydd, therapyddion galwedigaethol a ffisiotherapyddion am newidiadau o ran anghenion y cleifion.

Mae tîm yr hosbis yn ymgynghori â thîm gofal lliniarol y bwrdd iechyd a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill. O ganlyniad, gallai'r staff gael gafaél ar gymorth a chynghor arbenigol pan fo angen, er enghraifft gan ddeietegwyr, nyrsys arbenigol ar gyfer hyfywedd meinwe a therapyddion lleferydd ac iaith.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Dywedodd y staff meddygol wrthym eu bod wrthi'n cymryd rhan mewn treial cenedlaethol. Y nod yw canfod a oes manteision i roi hylifau i gleifion yn ystod gofal diwedd oes. Dywedodd y staff fod y cyfraddau cyfranogi yn y treial yn dda.

Rheoli cofnodion

Gwelsom fod systemau cadarn ar waith i sicrhau bod gwybodaeth bersonol am y cleifion a'r staff yn cael ei chadw'n ddiogel. Roedd cofnodion electronig yn cael eu cadw ar gyfer y cleifion gofal dydd ac roedd cofnodion papur yn cael eu cadw ar gyfer y cleifion gofal seibiant. Gwnaethom argymhell y dylai cofnodion pob claf gael eu cadw'n electronig.

Roedd fframwaith llywodraethu gwybodaeth ffurfiol ar waith ac roedd y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran cadw cofnodion cywir a sicrhau cyfrinachedd.

Drwy archwilio'r cofnodion hyfforddi, gwnaethom gadarnhau fod y staff wedi cael hyfforddiant ar lywodraethu gwybodaeth.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roedd y rheolwr cofrestredig wedi'i leoli yn yr hosbis, gan olygu ei fod ar gael i'r cleifion, y staff a'r ymwelwyr. Roedd hyn hefyd yn ei alluogi i fonitro ac asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.

Yn ystod ein trafodaethau â'r staff, dywedwyd wrthym fod prosesau anffurfiol da ar waith o ddydd i ddydd i oruchwyllo a chefnogi'r staff a gwelsom fod adolygiadau perfformiad ac adolygiadau arfarnu staff ffurfiol, wedi'u dogfennu, yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Roedd y sefydliad wrthi'n rhoi Adnodd Cynnydd a Fframwaith Datblygu Gyrfa newydd ar waith ac roedd y staff wrthi'n newid i'r broses newydd. Dywedwyd wrthym y dylai'r broses hon gael ei chwblhau erbyn mis Mehefin 2024.

Roedd cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac roedd cofnodion yn cael eu cymryd a'u rhannu â'r aelodau hynny o'r staff nad oeddent yn bresennol.

Gwnaethom siarad â sawl aelod o'r staff ac roeddent yn gyfeillgar, yn hawdd mynd atynt ac yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion a'u perthnasau/gofalwyr.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd Datganiad o Ddiben a Chanllaw i Gleifion yr hosbis, sydd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, yn darparu gwybodaeth am sut i godi pryder neu gŵyn. Fodd bynnag, rhaid i'r darparwr cofrestredig ychwanegu manylion AGIC at y Datganiad o Ddiben a'r Canllaw i Gleifion yn unol â'r rheoliadau. Mae'r argymhelliad hwn wedi'i grybwyll eisoes yn yr adroddiad.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Roedd staff yr hosbis yn cael eu hannog i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddiant mewnol ac allanol.

Roedd y wybodaeth am hyfforddiant staff a ddarparwyd yn dangos bod cyfraddau cwblhau hyfforddiant gorfodol yn fwy na 90% ar gyfer pob pwnc. Roedd disgwyl i'r staff gwblhau hyfforddiant mewn pynciau fel diogelwch tân, rheoli heintiau, y Ddeddf Galluedd Meddyliol, y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid, lechyd a Diogelwch a Diogelu yn ogystal â hyfforddiant penodol i'r gwasanaeth.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Roedd proses recriwtio staff ffurfiol ar waith. Roedd hyn yn cynnwys cynllun sefydlu a oedd yn cael ei hwyluso gan yr addysgwr ymarfer.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion y staff a gwelsom fod yr hosbis wedi dilyn y gweithdrefnau priodol ac wedi cynnal gwiriadau recriwtio perthnasol cyn i'r staff ddechrau gweithio.

Clywsom fod un swydd wag ar hyn o bryd ar gyfer Gweithiwr Proffesiynol Perthynol i lechyd. Roedd y gwasanaeth wedi recriwtio nyrsys yn ddiweddar ac roedd disgwyl i'r rhain ddechrau gweithio yn ystod yr wythnosau yn dilyn yr arolygiad.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Yn ystod ein harolygiad o'r ystafell paratoi meddyginiaeth gwelsom ddwy eitem o feddyginiaeth yr oedd y dyddiadau arnynt wedi mynd heibio.	Roedd risg felly y gallai'r feddyginiaeth hon cael ei rhoi i glaf ac y gallai achosi niwed o bosibl.	Hysbyswyd rheolwr y ward ar unwaith.	Cafodd yr eitemau eu tynnu a'u dinistrio.
Roedd cofnodion meddygol yn cael eu storio mewn swyddfa lle roedd y drws yn cael ei gadw ar agor.	Roedd hyn yn peri risg y gallai unigolion heb awdurdod weld cofnodion meddygol cyfrinachol.	Cafodd y drws ei gau a hybyswyd rheolwr y ward ar unwaith er mwyn sicrhau bod y drws yn cael ei gadw ar gau bob amser.	Cafodd y drws ei gau a rhoddodd y rheolwyr gyfarwyddiadau i'r staff i gyd er mwyn sicrhau bod y drws yn cael ei gadw ar gau.

Gwnaethom siarad â chleifion a roddodd adborth bod y drefn ar gyfer gweini bwyd yn golygu bod rhai cleifion yn cael prydau oer.	Roedd hyn yn golygu nad oedd rhai cleifion yn cael maeth priodol.	Hysbyswyd y rheolwyr am yr adborth a chafodd y mater ei uwchgyfeirio at staff y gegin.	Newidiodd staff y gegin y trefniadau ar gyfer gweini bwyd gan sicrhau bod hambyrddau'n cael eu cludo i'r cleifion ar yr ail lawr ar yr un pryd â'r cleifion ar y llawr cyntaf.

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Hosbis Marie Curie, Penarth

Dyddiad yr arolygiad: 6 a 7 Chwefror 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw welliannau yr oedd angen eu gwneud ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Hosbis Marie Curie, Bridgeman Road, Penarth, CF64 3YR.

Dyddiad yr arolygiad: 6 a 7 Chwefror 2024.

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ychwanegu manylion AGIC at y polisi cwynion, y Datganiad o Ddiben a'r Canllaw i Gleifion	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 6 Atodlen 1 (10)	<p><u>Penodol:</u> Diwygio'r Polisi Cwynion, y Datganiad o Ddiben a'r Canllaw i Gleifion er mwyn cynnwys manylion cyswllt Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC).</p> <p><u>Mesuradwy:</u> Sicrhau bod manylion cyswllt AGIC wedi'u nodi'n glir yn y dogfennau diwygiedig.</p> <p><u>Cyflawnadwy:</u> Dynodi mai'r Rheolwr Cofrestredig sy'n gyfrifol am sicrhau bod y dogfennau hyn yn cael eu diweddarau'n briodol.</p> <p><u>Perthnasol:</u> Mynd i'r afael â'r gofyniad rheoliadol i gynnwys manylion AGIC yn nogfennaeth y cleifion.</p>	Rheolwr Cofrestredig.	30.04.2024.

		Amserol: Cwblhau'r diweddariad cyn diwedd mis Ebrill 2024.		
Datblygu system i ddangos pan fydd cyfarpar wedi cael ei lanhau	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 15. (8) (c)	<p>Penodol: Ailbwysleisio pwysigrwydd cydymffurfio â phroses y sticeri 'Rwy'n lân' er mwyn dangos yn glir pan fydd cyfarpar wedi cael ei lanhau. Caiff y cam gweithredu hwn ei gynnwys yng nghyfarfodydd llywodraethu'r hosbis i'w rannu'n ehangach a chaiff ei rannu â'r staff drwy e-bost hefyd.</p> <p>Mesuradwy: Bydd marc gweledol ar bob darn o gyfarpar a ddefnyddir ar gyfer gofal cleifion ar ôl iddo gael ei lanhau.</p> <p>Cyflawnadwy: Dynodi mai'r tîm Llywodraethu Atal a Rheoli Heintiau a nyrsys cyswllt fydd yn gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth â'r system hon yn ymarferol.</p> <p>Perthnasol: Nod y ffordd hon o weithio yw gwella mesurau atal a rheoli heintiau a lleihau risgiau yn yr hosbis.</p> <p>Amserol: Ailbwysleisio pwysigrwydd cydymffurfio â'r ffordd hon o weithio ar unwaith. Fodd bynnag, dylid cynnal adolygiad i sicrhau bod y cam gweithredu hwn yn cael ei roi ar waith yn llawn cyn diwedd mis Ebrill 2024.</p>	Pennaeth Ansawdd ac Ymarfer Clinigol (Cymru). Arweinydd Clinigol - Gwasanaethau Hosbis (Cymru). Rheolwr Nyrsio Cleifion Mewnol.	30.04.2024.

<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn cael arfarniadau priodol.</p>	<p>Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 20 (2) (a)</p>	<p><i>Yn y gorffennol, mae staff clinigol Marie Curie wedi cael arfarniadau gan ddefnyddio'r adnodd "Fy Nghynllun ac Adolygiad". Fodd bynnag, mae'r aelodau hyn o staff wrthi'n newid i'r adnodd newydd, sef y "Fframwaith Datblygu a Chamu Ymlaen yn eich Gyrfa", a roddwyd ar waith yn ddiweddar.</i></p> <p><i>Yn ystod y cyfnod hwn o newid mawr, mae'r elusen wedi cytuno ar derfyn amser i gwblhau pob arfarniad yng Nghymru erbyn diwedd mis Mehefin 2024, gan ddefnyddio'r adnodd newydd.</i></p> <p><u>Penodol:</u> Bydd rheolwyr yn parhau i sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael arfarniadau o berfformiad amserol a gaiff eu cofnodi cyn y terfyn amser.</p> <p><u>Mesuradwy:</u> Gan ddefnyddio system ar-lein "Dysgu a Datblygu", bydd rheolwyr yn monitro bod arfarniadau staff yn cael eu cwblhau ac yn cadw cofnodion o drafodaethau a chanlyniadau. Caiff hyn ei fonitro gan Banel Llywodraethu Clinigol yr hosbis.</p> <p><u>Cyflawnadwy:</u> Rheolwyr llinell sy'n gyfrifol o hyd am sicrhau bod arfarniadau'n cael eu cwblhau o fewn eu timau. Caiff y broses hon ei goruchwyllo gan yr Uwch</p>	<p>Rheolwr Cofrestredig.</p>	<p>01.07.2024.</p>
--	--	---	------------------------------	--------------------

		<p>Dîm Arwain a'i monitro gan Banel Llywodraethu Clinigol yr hosbis.</p> <p><u>Perthnasol:</u> Mae'r broses hon yn cefnogi datblygiad staff ac yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion rheoliadol.</p> <p><u>Amserol:</u> Bydd y rheolwr llinell yn cynnal arfarniadau gyda phob aelod o'r staff yn ystod y cylch arfarnu nesaf, gan sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau cyn diwedd mis Mehefin 2024.</p>		
--	--	---	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth -

Enw (priflythrennau): Samuel Clements.

Teitl swydd: Pennaeth Ansawdd ac Ymarfer Clinigol (Cymru).

Dyddiad: 28.03.2024.